Lawrlwythwch ac argraffwch y ffurflen CC1 (cymorth tuag at gostau gofal plant) o'n Gwefan gan sicrhau eich bod yn clicio ar garfan gywir y flwyddyn (Mawrth neu Fedi)
https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-dyfarniadau-myfyrwyr/

Cwblhewch y ffurflen CC1 gydag amcangyfrif o'ch costau gofal plant ar gyfer y flwyddyn academaidd, gan sicrhau bod Adran 1 yn cael ei chwblhau gennych chi (y myfyriwr) yn unig a bod adran 2 yn cael ei chwblhau gan eich / y darparwr yn unig.
Sylwch fod yn rhaid i ddatganiadau myfyrwyr a darparwyr gael eu dyddio a'u llofnodi neu bydd y cais yn annilys.

Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau a'i llofnodi i'r cyfeiriad ym Mhont-y-pŵl y manylir arno yn y cais, gan sicrhau eich bod hefyd yn amgáu eich taflen glawr i fyfyrwyr y gellir dod i hyd iddi yn eich cyfrif BOSS ar-lein

Derbynnir dogfennau yyn y cyfeiriad ym Mhont-y-pŵl a chânt eu sganio i'ch cyfrif a'u dychwelyd i'r cyfeiriad a ddarperir cyn pen 20 diwrnod gwaith

Mae eich dogfennau mewn ciw yn aros i gael eu hasesu. Gall hyn gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith.

Asesir dogfennau. Y canlyniad fydd un o'r canlynol

Os nad yw'r Fwrsariaeth wedi'i hasesu a'i chymeradwyo eto, bydd y cais gofal plant yn aros YN YR ARFAETH nes bod y tîm gofal plant wedi cael gwybod bod y cais bwrsariaeth wedi'i gwblhau.

Bydd yn ymuno â'r ciw i gael ei hasesu

Bydd y cais Gofal Plant yn cael ei asesu a'i wirio gan yr aseswyr gofal plant.

Os yw'r Fwrsariaeth wedi'i hasesu **ond heb gynnwys lwfans dibynyddion**, yna anfonir e-bost yn gofyn i'r myfyriwr gyflwyno newid mewn amgylchiadau yn ei gyfrif BOSS ar-lein i wneud cais am y lwfans dibynyddion

Cyfeiriwch at y llinell amser Newid mewn Amgylchiadau. Mae'r newid mewn amgylchiadau wedi'i gwblhau ac erbyn hyn gellir asesu'r gofal plant a'i wirio ddwywaith

Os yw'ch Bwrsariaeth wedi'i hasesu gan gynnwys lwfans dibynyddion, bydd eich ffurflen yn cael ei rhoi yn y ciw i'w hasesu ar unwaith.

Bydd y cais Gofal Plant yn cael ei asesu a'i wirio gan yr aseswyr gofal plant

Bydd y myfyriwr yn derbyn llythyr / e-bost (Hysbysiad o'r Dyfarniad) neu e-bost gyda chanlyniad yr asesiad

Bydd y brifysgol yn cael gwybod am y dyfarniadau a gynhyrchir